Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Nant Y Groes

Greenfield Road
Bae Colwyn
LL29 8ET

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Nant Y Groes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Nant Y Groes |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 234 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 181 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 25 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 46.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 18.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 7.2% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2013 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/01/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Nant y Groes yn ysgol groesawgar a chynhwysol lle mae arweinwyr a staff yn creu amgylchedd gofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion. Mae gweledigaeth glir ar y cyd yn hyrwyddo gwerthoedd cadarnhaol fel parch, caredigrwydd a dyhead. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu dros gyfnod fel unigolion meddylgar ac ystyriol. Mae disgyblion o aelwydydd incwm isel, a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r canolfannau adnoddau dysgu, yn cael cymorth unigoledig effeithiol sy'n helpu'r rhan fwyaf ohonynt i ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu a gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau dysgu, yn enwedig yn eu medrau ysgrifennu.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn sefydlu perthnasoedd cryf a pharchus â nhw. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, sy'n gyson gryf ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ac yn gwneud defnydd pwrpasol o'r gymuned leol i gyfoethogi dysgu disgyblion. Trwy hyn, mae disgyblion yn elwa ar brofiadau ystyrlon sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'u hunaniaeth Gymreig, eu cyfrifoldeb cymdeithasol a'r byd ehangach.

Mae arferion cyson a disgwyliadau uchel gan athrawon a staff cymorth yn cyfrannu at amgylcheddau dysgu digynnwrf a phwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod cyflymdra addas ac yn darparu lefel briodol o gymorth a her i ddisgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, mae tasgau sy'n cael eu cyflwyno gan staff yn cael eu cyfarwyddo'n ormodol, ac nid ydynt bob amser yn annog disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn darparu cyfeiriad clir a phwrpasol ar gyfer yr ysgol ac yn rhannu ymrwymiad cryf i ddysgu a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth priodol, er bod lefel eu her yn datblygu. Er bod presenoldeb wedi gwella ychydig dros gyfnod, mae cyfraddau absenoldebau parhaus yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol o hyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Lleihau cyfraddau absenoldebau parhaus disgyblion

A2 Galluogi'r holl ddisgyblion i wneud dewisiadau pwrpasol am sut a beth maent yn ei ddysgu i ddatblygu ymhellach i fod yn ddysgwyr annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Nant y Groes yn ysgol gynhwysol ac anogol. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, wedi datblygu gweledigaeth gref a phwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae dyheadau ar y cyd i bob disgybl 'Gredu, Cyflawni a Llwyddo', yn amlwg ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr gofalgar ac uchelgeisiol.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol a chynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r lefelau cryf o gyfathrebu a chydweithio sy'n bodoli rhwng athrawon a staff cymorth yn sicrhau bod dealltwriaeth gywir, ar y cyd, o anghenion unigol disgyblion. Mae staff cymorth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarparu ymyriadau penodol, a arweinir gan anghenion ar gyfer disgyblion. Caiff hyn effaith nodedig ar eu dysgu a'u lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY, yn cynnwys y rhai sy'n mynychu'r canolfannau adnoddau dysgu (CADau), yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau unigol ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu a bywyd yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf a chefnogol o fewn amgylchedd dysgu anogol. O ganlyniad, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda, ac mae eu hagweddau at ddysgu yn gryf.

Mae athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion, sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol. Darperir cyfleoedd buddiol ar gyfer disgyblion, yn cynnwys y rhai yn y CADau, i ddysgu am eu hardal leol, eu hunaniaeth Gymreig a'r byd ehangach, er enghraifft trwy ymweld â Bae Colwyn i astudio celf stryd fodern. Mae hyn, yn ei dro, yn paratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol ac ymholgar. Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn ystyried safbwyntiau a gwerthoedd eraill yn effeithiol ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o unigolion sy'n wahanol iddyn nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau deall cyfarwyddiadau Cymraeg o oedran cynnar. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Saesneg yn hyderus ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn addas. Mae ffocws cryf yr ysgol ar lythrennedd wedi meithrin cariad cadarnhaol at ddarllen sydd, yn ei dro, yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i fwynhau darllen a datblygu eu medrau yn adeiladol. Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth gadarn.

Un o nodweddion nodedig yr ysgol yw ei diwylliant cadarnhaol ar gyfer ysgrifennu a'r effaith ystyrlon ar fedrau ysgrifennu disgyblion.

### Ciplun 1: Datblygu diwylliant cadarnhaol ar gyfer ysgrifennu

Mae arweinwyr wedi cydweithio â phob un o'r staff i werthuso cynnydd a safonau medrau ysgrifennu disgyblion ar draws yr ysgol, ac wedi cymryd camau pendant i sicrhau gwelliannau amserol. Mae dysgu proffesiynol targedig wedi cefnogi staff i fireinio eu dulliau o addysgu ysgrifennu, gyda ffocws clir ar rannu'r broses ysgrifennu yn gamau hylaw, graddol. Mae'r dull 'Cold to Gold' hwn wedi cryfhau medrau disgyblion, gan eu galluogi i ysgrifennu â hyder cynyddol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda ag ysgrifennu, ac mae disgyblion hŷn yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig o ansawdd uchel ar draws y cwricwlwm yn gyson.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn mathemateg ac yn defnyddio'u gwybodaeth i ddatrys problemau â hyder cynyddol. Mae disgyblion iau yn datblygu eu dealltwriaeth o rif yn effeithiol o oedran cynnar trwy weithgareddau ymarferol difyr. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn cymhwyso'u dealltwriaeth fathemategol yn effeithiol i feysydd eraill y cwricwlwm, gan gefnogi eu dysgu ar draws ystod o feysydd profiadau dysgu, er enghraifft i gynllunio ac adeiladu amddiffynfeydd môr i warchod morlin Bae Colwyn. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai yn y CADau, yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a datrys problemau yn gynhyrchiol ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn rhannu'r amcanion dysgu ac yn holi disgyblion yn bwrpasol. Mae hyn yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn fuddiol ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol agweddau ymhellach. Un o'r cryfderau nodedig yw disgwyliadau uchel athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth, ac maent yn dangos ymagwedd gyson at drefniadaeth ac arferion ystafell ddosbarth ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gosod cyflymdra chwim i'r gwersi ac yn herio disgyblion yn briodol. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae staff yn addasu gweithgareddau'n ystyriol i roi lefel briodol o annibyniaeth i ddisgyblion. Fodd bynnag, ar adegau, caiff tasgau eu cyfarwyddo'n ormodol gan staff ac nid ydynt bob amser yn annog disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion, yn cynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai yn y CADau, ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae grwpiau arweinyddiaeth yn codi ymwybyddiaeth disgyblion am yfed dŵr yn ystod y dydd. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth bron pob un o'r disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn ystyried ystod eang o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r

rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth i wella lles, profiadau dysgu a chynnydd ym medrau disgyblion. Mae staff a disgyblion yn cyfrannu'n bwrpasol at y gweithdrefnau gwerthuso, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rolau i ddatblygu darpariaeth ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr ymroddedig dros yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gyd-destun yr ysgol a'i llwyddiannau a'i heriau. Mae'n ddyddiau cynnar iddynt o ran mabwysiadu eu rôl fel ffrindiau beirniadol, yn darparu cymorth a her i arweinwyr, yn enwedig o ran rhedeg yr ysgol yn weithredol. Yn gyffredinol, mae'r her ynghylch darpariaeth, a chynnydd a safonau disgyblion, yn llai datblygedig.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i gefnogi presenoldeb a phrydlondeb disgyblion, sy'n cynnwys cymorth dwys gan y swyddog cyswllt â theuluoedd. Fodd bynnag, er bod presenoldeb yr ysgol wedi gwella ychydig dros gyfnod, mae absenoldebau parhaus yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu, cynllunio a chyflwyno dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion staff unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Mae dysgu proffesiynol diweddar ynghylch strategaethau ymddygiad cadarnhaol wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau at ddysgu o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi bod yn hynod lwyddiannus yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a chroesawgar â rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol. Mae bron pob un o'r rhieni, yn cynnwys teuluoedd y mae eu disgyblion mewn CADau, yn rhoi adborth cadarnhaol ar eu hymgysylltiad â'r ysgol a phrofiadau dysgu eu plentyn. Maent yn cynnal cyfarfodydd amserol i adolygu ymyriadau ac yn monitro cynnydd i sicrhau eu bod yn llwyddiannus wrth alluogi disgyblion i gyflawni o'u gorau yn eu cyfnod datblygu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026